

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH A GYNHALIWYD AR NOS LUN 28AIN O IONAWR 2019 YN YSGOL PANT PASTYNOG, PRION AM 7.30 O'R GLOCH.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Elfed Williams (Cadeirydd), Jill Evans, Philip Williams, Arwel Davies, Cynghorydd Sir Ddinbych Joseph Welch a'r Clerc.

1: YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Geraint Jones, Iwan Jones, Bari Evans, Stanley Williams, Falmai Evans a Hywel Davies.

2. DDATGAN DIDDORDEB.

Dim yn codi.

3. TRAFODAETH GYDA REBECCA SZEKELY, CYFEIRIWR CYMUNEDOL CYNGOR SIR DDINBYCH.

Croesawodd y Cadeirydd i Mrs Rebecca Szekely i'r Cyfarfod. Rhoddwyd adroddiad gan Mrs Szekely ynglŷn â'i rhôl fel "Cyfeiriwr Cymunedol a Phresgripsiynau Cymdeithasol" sydd yn eich cysylltu chi gyda chefnogaeth yn eich cymuned ac yn cael ei chyflogi yn rhannol gan Gyngor Sir Ddinbych, Age Convern a'r "Groes Goch". Mae'r gwasanaeth ar gael yn Llyfrgelloedd Dinbych ar brynawn Mercher neu Rhuthun ar fore Gwener ynghyd a'r ymweld ag unrhyw Fudiad o fewn y gymuned. Cytunodd y Clerc rhoi manylion cyswllt mudiadau Clwb-y-Pentan a Chymdeithas Maes-y-Plwm i Mrs Szekely i'w ymweld. Diolchodd y Cadeirydd i Mrs Szekely am fynychu'r cyfarfod.

4. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 26ain o Dachwedd 2018 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

5. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Mae'r Clerc yn dal i ddisgwyl ymateb oddi wrth Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych (trwy'r sistem CRM) i'r materion y ffyrdd a chodwyd.

B. Derbyniwyd ymateb oddi wrth Adran Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych yn cadarnhau'r unig amodau amser ynglŷn â'r cais cynllunio ar y cyn safle Bryn Morfydd yn Llanrhaeadr yw

1. Mae'r rhaid i'r datblygiad ei gychwyn erbyn 17 Awst 2023.

2. Bydd rhaid i'r adeilad y cyn Gwesty Bryn Morfydd cael ei dymchwel erbyn 17 Chwefror 2019.

C. Derbyniwyd adroddiad diweddaraf o'r "Prosiect fynnon Dyfnog Llanrhaeadr" oddi wrth y Cadeirydd ynglŷn ar ddigwyddiadau ers cyfarfod blaenorol y Cyngor.

D. Derbyniwyd adroddiad y Cadeirydd i'r Cyfarfod Safle gyda Chwmni Bogons Internet Ltd ar 28ain o Dachwedd ynglŷn ar faterion band eang yn y gymuned. Mae'r cwmni yn asesu'r wybodaeth a byddent yn mynd i adroddi yn ôl i'r Cadeirydd.

E. Chadarnhaodd y Cadeirydd ei fod wedi ymweld ag Ysgolion Bro Cinmeirch, Llanrhaeadr a Phant Pastynog, Prion yn gynharach yn y mis i gyflwyno'r brws dannedd a photeli ddi-blastic i'r disgyblion.

6. CYLLID.

A. Datganiad Banc £17,012.00.

B. Taliadau:-

1. Cyngor Sir Ddinbych am dair cyfarfod y Cyngor yn Ysgol Bro Cinmerich ym misoedd Mehefin, Medi a Thachwedd 2018 - £45.00.

2. Cyngor Sir Ddinbych am bump cyfarfod y Cyngor yn Ysgol Pant Pastynog yn ystod y flwyddyn 2019 - £100.00.
3. Apêl Pobi Goch Y Lleng Prydeinig Brenhinol (Cangen Dinbych) am un Pobi Coch i'r Gwasanaeth Sul Cofio 11eg o Dachwedd 2018 yn Llanrhaeadr - £25.00.

#### 7. PRECEPT Y CYNGOR AM Y FLWYDDYN ARIANNOL 2019/2020.

Ar ôl trafodaeth ynglŷn â'r cyllid y Cyngor am y flwyddyn ariannol bresennol (2018/19) a'r amcangyfrif am y flwyddyn ariannol 2019/2020, penderfynwyd gadael Treth y Cyngor am y flwyddyn ariannol 2019/20 ar y sail o £24 ar yr 521 preswyl yn y gymuned sydd yn cynhyrchu incwm o £12,504.00

#### 8. CEISIADAU CYNLLUNIO.

- A. Cynlluniau diwygiedig/wybodaeth ychwanegol ar gais i ddatblygu 1.2 hectar o dir drwy godi 33 o breswyl (cais amlinellol yn cynnwys mynediad a chynllun) ar dir wrth Ddolwar, Llanrhaeadr. Gan nad oedd gwrthwynebiad y Cyngor Cymuned ddim wedi ei newid penderfynwyd fod un sylw eisoes ei gwneud gyda'r Cyngor Sir Ddinbych yn dal yn bodoli.
- B. Cynlluniau diwygiedig/wybodaeth ychwanegol ar gais cynllunio codi estyniad i'r annedd a'r gwaith cysylltiedig yn Tan-yr-Allt, Peniel - dim gwrthwynebiad.
- C. Codi Estyniad i'r annedd yn Llwyn Bach, Llanrhaeadr – dim gwrthwynebiad.
- D. Cais Cynllunio 23/2018/1164 - Cadw a newid y defnydd o floc amwynder i adeilad amaethyddol er mwyn storio offer a pheiriannau sy'n ymwneud a rheoli'r tir yn Safle Carafanau Cae'r Mynydd, Saron. Penderfynwyd gwrthwynebu'r cais oherwydd bod yr adeilad eisoes wedi bod ei dymchwel o fewn chwe mis o'r 13eg o Rhagfyr 2017 yn amod rhif saith o'r cais cynllunio 23/2016/1218/PF.

#### 9. GOHEBIAETH.

Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

#### 10. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

- A. Penderfynwyd yr Aelodau i'r Clerc tynnu sylw Adran Briffyrdd at y materion canlynol:-
  1. Dwr yn llifo o'r caead yn y ffordd ar yr allt rheng Prion a Saron.
  2. Y ffordd gyferbyn a Tyddyn Isaf (ochor Prion Isaf) ym Mhrion eisiau sylw.
  3. Ffordd yn y pant yn syth ar ôl gadael Pentref Saron tuag at Nantglyn eisiau sylw.
  4. Lamp golau stryd ddim yn gweithio wrth Gapel Saron ers rhai wythnosau bellach.
- B. Penderfynwyd yr Aelodau i'r Clerc tynnu sylw Adran Cynllunio fod yna perchennog tŷ yn Saron yn byw yn llawn amser mewn carafan yn safle Carafanau Cae'r Mynydd yn Saron.

#### 11. MATERION BRYD O DAN ADRAN 100B(4) O'R DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972.

- A. Derbyniwyd Adroddiad Cyngorydd Arwel Davies ei fod yn edrych i mewn i'r "Beics Bedalau Trydan Cymunedol".
- B. Derbyniwyd adroddiad Cyngorydd Philip Williams o'r cyfarfod Ardal Un Llais Cymru yn diweddar bryd trafodwyd cyrsiau hyfforddiant i'r Aelodau'r Cyngor bydd yn gyfreithiol ynghyd ar Lwfans Blynyddol Aelodau'r Cyngor i'w thrafod yn cyfarfod nesaf y Cyngor.
- C. Mae'r Cadeirydd yn edrych i mewn i'r mater o gael goleuadau stryd ychwanegol ar Stad Maes-yr-Felin yn Llanrhaeadr gyda Chyngor Sir Ddinbych.

#### 12. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Lun 25ain o Chwefror 2019 yn Ysgol Bro Cinmeirch, Llanrhaeadr am 7.30 o'r gloch.